**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am yn Nhŷ Rheidol, Aberystwyth, ddydd Iau 13 Tachwedd 2025**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Chair)
Gareth Wynn Davies, John T Davies, Jack Evershed, Mike Humphreys, Vicki Spencer-Francis, Emlyn Roberts; Caroline Sanger-Davies (*rhithiol – ymuno am 11.30*), Dewi Hughes, Paul Savage (*rhithiol*), Hugh Hesketh-Evans (*rhithiol*)

**Gwahoddwyd:** Maria Richards (Llywodraeth Cymru)

**Swyddogion Gweithredol:** José Peralta (Prif Weithredwr)
Gareth Jones (Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol)
Meilyr Ceredig (Pennaeth Hyrwyddiadau a Gweithrediadau)
John Richards, Arweinydd Cynhyrchwyr a Phroseswyr;
Jason Craig, Arweinydd Datblygu'r Farchnad;
Pip Gill, Arweinydd Ymrwymiad Brand
Russ Thomas, Arweinydd Cynaliadwyedd a Datblygu Polisi
Jo Horder, Ysgrifenyddiaeth

**Ar gyfer Eitem 4:** Owain Edwards, Pennaeth Polisi Anifeiliaid (Llywodraeth Cymru)
Chris Moore, Prosiect Amryw-rywogaethol Cymru ac Arweinydd Cyflwyno (Llywodraeth Cymru)

## 1. Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad am y prif ddigwyddiadau a chyfarfodydd y bu'n eu mynychu ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd:

18 Medi – Bwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio.
5-7 Hydref – Ffair Fasnach Anuga,
20 Hydref – Cyfarfod Llywodraethiant Llywodraeth Cymru gyda HCC,
27 Hydref – Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol HCC,
30 Hydref – Bord Gron Gweinidogol,
3 Tachwedd – Sesiwn cyntaf Grŵp Cig-weithio HCC,
6 Tachwedd – Cynhadledd yr NFU,
12 Tachwedd – Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus.

Diolchodd y Cadeirydd i Vicki Spencer-Francis am fynychu cyfarfod Proses Recriwtio Sector Cyhoeddus yr Uned Cyrff Cyhoeddus ar 5 Tachwedd ar ei rhan. Nodwyd y bu'n ddiwrnod cynhyrchiol a bod y grŵp wedi nodi sawl cyfle i wella'r broses recriwtio.

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau

**3. Datganiadau o Fuddiannau**

Datganwyd cysylltiad gan Vicki Spencer-Francis a Meilyr Ceredig mewn perthynas ag eitem 8c ar yr agenda.

**4. Diweddariad Cynnydd Amryw-Rywogaeth Cymru (EIDCymru)**

Croesawodd y Cadeirydd Owain Edwards a Chris Moore i'r cyfarfod.

Rhoddwyd diweddariad am gynllun y prosiect, a fydd n digwydd fesul cam. Cam Un fydd cymryd data o'r System Olrhain Gwartheg I gyfundrefn Cymru. Hwn yw'r cam sylfaenol. Yna, bydd lladd-dai, canolfannau marchnad/casglu ac eraill yn ymuno yn ystod camau dau, tri a phedwar.

Bydd Cam Un yn dechrau ym mis Rhagfyr, a'r nod yw cwblhau Cam Pedwar erbyn diwedd 2026, ond gallai hyn newid os oes problem gyda'r amseriad. Bydd cynllun cyfathrebu wedi'i deilwra i'r gwahanol sectorau yn cael ei roi ar waith.

Trafodwyd fframwaith llywodraethu'r prosiect, y Cytundebau Lefel Gwasanaeth, y gyllideb a'r amserlenni. Mae'r manylion yn cael eu cwblhau a bydd tîm y prosiect yn adrodd yn ôl maes o law.

**Gweithredu: Llywodraeth Cymru.**

Nodwyd bod manylion darpariaeth y ddesg wasanaeth yn dal i gael eu llunio o fewn ffrwd waith ar wahân. Bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Bwrdd yn ddiweddarach.

Bydd sleidiau'r cyflwyniad yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd a bydd diweddariad cynnydd yn cael ei gynnwys fel eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Gweithredu: Llywodraeth Cymru / HCC**

5. **Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd**

a) *Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 11 Medi 2025*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd yn amodol ar gywiro rôl GW Davies gyda Fane fel Cyfarwyddwr Anweithredol.

6. **Materion yn codi**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

7. **Corfforaethol**

a. *Cynllun Gweithredol 6-mis Adolygiad Perfformiad 2025-26 yn ôl Dangosyddion Perfformiad Allweddol*

Cyflwynwyd yr uchod gan yr Arweinydd Cynhyrchwyr a Phroseswyr a bu'n amlygu'r prif bwyntiau. Nodwyd nad oedd unrhyw bryderon ynghylch Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar hyn o bryd.

*b. Gweledigaeth 2030 a Chyllido*

Cyflwynwyd yr uchod gan yr Arweinydd Cynhyrchwyr a Phroseswyr.

Nodwyd bod Gweledigaeth 2030 bellach yn barod i’w rhannu â Llywodraeth Cymru ar gyfer llofnod terfynol. Bydd gwaith yn dechrau nawr ar ddatblygu Cynllun Busnes HCC ar gyfer y cyfnod o bedair blynedd. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2026.

Mae Gweithrediaeth HCC yn parhau i ymgysylltu â Gweinidogion Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid.

Cymeradwyodd y Bwrdd Weledigaeth 2030.

Nodwyd, yn lle Cynhadledd flynyddol HCC, y cynhelir sioeau teithiol yn y Flwyddyn Newydd i gyfleu Gweledigaeth 2030 i'r diwydiant. Bydd negeseuon cyfathrebu cyn cyhoeddi'r Weledigaeth yn cael eu cynnwys yn y llinellau i'w dilyn ar gyfer y Ffair Aeaf.

**Gweithredu: Pennaeth Hyrwyddiadau a Gweithrediadau**

8. **Adroddiadau HCC**

*a. Adroddiad Cyflenwi*

Cymerwyd bod yr adroddiad wedi'i ddarllen gan y Bwrdd. Y prif uchafbwyntiau oedd:

Marchnata Strategol a Chysylltiadau

- Roedd ymgyrch Cig Oen Cymru yn dod i ben ac roedd y gwerthusiad wedi dechrau;
- Mae ymgyrch Cig Eidion Cymru bellach ar waith;
- Bydd Llysgennad Cig Eidion Cymru, Lauren Price, ar drelar HCC yn y Ffair Aeaf;
- Ar hyn o bryd mae HCC yn ymgysylltu â chynhyrchwyr porc ynghylch marchnata.

Y Gadwyn Gyflenwi - Datblygu'r Farchnad

- Mae'r tîm Datblygu'r Farchnad yn ymgysylltu wyneb yn wyneb â mân-werthwyr;
- Bu presenoldeb HCC yn Anuga a Blas Cymru yn gadarnhaol iawn;
- Mae HCC yn cydweithio ag AHDB ynghylch presenoldeb yn Gulfood.

Y Gadwyn Gyflenwi - Cynhyrchwyr a Phroseswyr

- Bu gostyngiad yn nifer y safleoedd PGI i 41;
- Ymwelir â phob lladd-dy erbyn diwedd mis Tachwedd i gasglu gwybodaeth i dynnu sylw at bwysigrwydd y sector prosesu yng Nghymru.

Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol

- Roedd y ffocws ar y prosiect Sylfaenu. Dewiswyd ffermydd a oedd yn cymryd rhan, gydag amserlen dynn o weithgarwch wedi'i chynllunio i ddod â'r prosiect yn unol â gweddill y DG.

*b. Diweddariad Ariannol: Cyfrifon Rheoli Medi 2025*

Cyflwynodd Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol yr uchod. Y pwyntiau allweddol a amlygwyd oedd:

- Roedd gwarged gweithredol o £351k, £399k o flaen y gyllideb;
- Cafodd yr amrywiant cadarnhaol hwn ei yrru'n bennaf gan incwm ardoll a oedd yn fwy na'r proffil hyd yma a thanwariant gwariant yn erbyn y proffil, oherwydd materion amseru;
- Cyfanswm yr incwm hyd yma oedd £2.158m, yn erbyn cyllideb o £1.977m. Cyfanswm y gwariant oedd £1.807m, islaw'r £2.025m a gyllidebwyd.

Nodwyd yr adroddiad gan y Bwrdd

*c. Achos Busnes dros estyn Contract y Gwasanaethau Asiantaeth Integredig am 12 mis*

Gadawodd VS-F a MC y cyfarfod am hyd yr eitem agenda hon.

Cyflwynodd Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol yr uchod a chrynhoi'r pwyntiau allweddol.

Cymerwyd bod yr achos busnes wedi'i ddarllen a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd yn amodol ar gadarnhad gan Dîm Noddi Llywodraeth Cymru.

**9. <u>Adolygu a Chymeradwyo Dogfennau Allweddol</u>**

*a. Erthyglau Cymdeithasu – gohiriwyd tan i Lywodraeth newydd ddod i rym*

*b. Polisi Adolygu Perfformiad*

Cymerwyd bod y polisi wedi'i ddarllen a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

*c. Cod Ymddygiad a Gweithdrefn Gwyno ar gyfer Aelodau'r Bwrdd*

Codwyd pwyntiau mewn perthynas â pharagraffau 2.1.2 ynghylch penderfyniadau gweithredol, a 12.2 mewn perthynas â phroses weladwy i asesu perfformiad y Bwrdd. Caiff y drafft terfynol ei ddiwygio yn unol â hynny.

**Gweithredu: Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol**

Cymeradwyodd y Bwrdd y weithdrefn yn amodol ar y gwelliannau uchod.

*d. Polisi Disgyblu*

Codwyd pwynt mewn perthynas â pharagraff 5.7.1 ynghylch yr hawl rhybudd anffurfiol i apelio. Gofynnir am eglurhad ar y pwynt hwn.

**Gweithredu: Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol**

Cafodd y polisi ei gymeradwyo gan  Bwrdd, yn amodol ar yr uchod.

*e.* *Polisi Cwynion*

Cymerwyd bod y polisi wedi'i ddarllen a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

*f.* *Polisi Atal*

*g.* Cymerwyd bod y polisi wedi'i ddarllen a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

**10. <u>Pwyllgorau HCC</u>**

**Pwyllgor Archwilio a Risg**

*a. I fabwysiadu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 19 Mehefin 2025*

Mabwysiadwyd yr uchod gan y Bwrdd yn amodol ar welliant.

*b. I dderbyn adroddiad llafar o'r cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 16 Hydref 2025*

Darparodd Cadeirydd y Pwyllgor adroddiad llafar a thynnodd sylw at y pwyntiau allweddol:

- Dilyniant archwiliad mewnol ar gyfathrebu electronig a rhannu gwybodaeth - ystyriwyd mai meddalwedd rheoli Bwrdd sy'n seiliedig ar y cwmwl oedd yr opsiwn gorau. Nod HCC oedd gweithredu system mewn pryd ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr;
- Ffioedd archwilio allanol ar gyfer 2026-27 – y cynnydd ffi arfaethedig oedd 5.5%. Bydd y cynnig ffi terfynol yn cael ei wneud ym mis Chwefror 2026;
- Archwilio mewnol - roedd yr archwiliad Diogelu Data wedi dechrau a bydd yn adrodd i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2026. Bydd yr archwiliad Caffael bellach yn cael ei adrodd ym mis Mehefin 2026 i ystyried y newidiadau sydd eu hangen ar strategaeth gaffael HCC yn dilyn newidiadau deddfwriaethol;
- Rheoli risg – trafodwyd y dadansoddiad o'r risg TG yn fanwl, o ystyried ei phwysigrwydd strategol. Ar y cyfan, roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y sefyllfa bresennol;
- Adroddiad blynyddol cofrestr buddiannau, rhoddion a lletygarwch – Ni chodwyd unrhyw faterion. Nodwyd argymhelliad, er mwyn cynnal neu wella cydymffurfiaeth, i adolygu a diweddaru polisïau cysylltiedig â'r cod ymddygiad;
- Llywodraethu gwybodaeth - nodwyd bod HCC wedi cadw ei ardystiad Hanfodion Seiber a Mwy ym mis Awst 2025 ac wedi cyflawni Sicrwydd Seiber Lefel 1 IASME yn ddiweddar.

Cafwyd trafodaeth ar y cynnydd yn y ffi Archwilio Allanol ar gyfer 2026-27 a'r potensial i drafod y cynnig gyda chyrff cyhoeddus eraill.

**Gweithredu: Y Cadeirydd**

Cyhoeddodd Cadeirydd y Pwyllgor mai dyma oedd cyfarfod olaf y Pwyllgor iddo ef a John T Davies, gan y byddai eu cyfnodau fel aelodau o Fwrdd HCC yn dod i ben ym mis Mawrth 2026. Croesawodd Paul Savage a Hugh Hesketh Evans, a fydd yn

ymuno â'r Pwyllgor. Nodwyd y byddai Jack Evershed yn cymryd yr awenau fel Cadeirydd y Pwyllgor. Diolchodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor ac i HCC am eu cefnogaeth yn ystod ei gyfnod ar y Pwyllgor.

Diolchodd Cadeirydd y Bwrdd i Gareth Davies a John T Davies am eu Cadeiryddiaeth ac aelodaeth o'r Pwyllgor.

*c. I dderbyn yr Adroddiad Archwilio Allanol 2024-25*

Cafwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol am y pwyntiau allweddol.

Roedd y farn archwilio, am ddatganiadau ariannol a chysondeb, yn ddigymhwyster.

Penderfynodd y Pwyllgor Archwilio a Risg argymell i'r Bwrdd y dylai awdurdodi'r Cadeirydd a'r Swyddog Cyfrifol i lofnodi'r llythyr cynrychiolaeth ar ran y Bwrdd. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

Cafodd y Tîm Cyllid ei longyfarch gan Gadeirydd y Pwyllgor am ganlyniad yr adroddiad, a chafodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol ei ddiolch am ansawdd yr adrodd ariannol i'r Pwyllgor.

*d. I dderbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2024-25*

Cymeradwyodd y Bwrdd y Datganiadau Ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, ac awdurdododd y Cadeirydd a'r Swyddog Cyfrifo i'w llofnodi ar ran y Bwrdd.
Rhoddir y datganiadau, ar ôl eu cymeradwyo a'u llofnodi gerbron y Senedd a chânt euurhoi i gadw yn Nhŷ'r Cwmnïau erbyn dyddiad terfyn eu cyflwyno, sef 31 Rhagfyr 2025. Cânt eu harddangos ar wefan HCC.

Cafodd HCC a'r Pwyllgor Gwaith eu llongyfarch gan Gadeirydd y Bwrdd am y sefyllfa ariannol.

**11. Unrhyw faterion eraill**

Ynghylch adroddiad ETRA ar HCC, nodwyd y disgwylir trafodaeth mewn Sesiwn Lawn o'r Senedd ar 3 Rhagfyr 2025.

**12. Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Cyfarfod o'r Bwrdd – Dydd Iau 15 Ionawr 2026 am 10.00am
Cyfarfod o'r Bwrdd (Rhithiol) – Dydd Iau 12 Chwefror 2026 am 09.30am (Cymeradwyo Cynllun Busnes)
Cyfarfod o'r Bwrdd – Dydd Iau 12 Mawrth 2026 am 10.00am

**Sesiwn Caeedig o Fwrdd HCC**

Dilynwyd gan gyfarfod cyfrinachol ac ar wahân o'r Bwrdd.

**Llofnodwyd**........................................**Cadeirydd HCC**